

Cofion

- Yr ydym yn codi amryw yn yr ofalaeth o flaen yr Arglwydd yn ein gweddïau heddiw eto. Cofiwn am Gwynant Jones (Llansannan) sydd yn Ysbyty Gobowen; Morfudd Roberts (Llanefydd), Rhiannon Davies (Tanyfron), ac Aled Roberts a Morfudd Williams (Henllan) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd; a hefyd Selwyn Davies (Cefn Meiriadog) sydd yn yr Inffirmari. Nid yw Elwyn Bailey (Llansannan) yn dda ei iechyd y dyddiau hyn ychwaith. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd, gan ofyn iddo gysgodi drostynt a thros eu hanwyliaid yr un modd. Hyderwn y byddant oll yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen.

Detholiadau

Os hoffech gael copi o

Raglen Cymanfaeodd Canu 2013-2014

(Hen Nodiant a/neu Sol-ffa),

rhowch eich archeb i arolygwr eich Ysgol Sul

HEDDIW os gwelwch yn dda. Pris: £1.35

(Arolygwyr: Wnewch chi roi eich archeb i Mair ddechrau'r wythnos hon, os gwelwch yn dda?)



I ddod

- GWASANAETH DIOLCHGARWCH YNG NGHAPEL SOAR, LLANFAIR TALHAIARN** nos Fercher Hydref 9fed am 7.00 pryd y bydd y Parch Thomas Evans Williams yn pregethu.
- CYMDEITHAS LLANEFYDD** yng nghwmni'r ddwy Sian, sef Sian Bryn Hen gynt a Sian Bryniau Defaid nos Iau, Hydref 10fed am 7.00 yng Nghapel Llanefydd.
- OEDFA ARBENNIG I'R FRO** yng nghwmni John Derek Rees yn Llansannan nos Sul, Hydref 20fed.
- CYFARFOD CENHADOL CHWIORYDD BRO ALED** nos Fawrth, Hydref 22ain. Mwy o fanylion i ddilyn.
- CWRS IEUENCTID AR DAITH** dydd Sadwrn, Hydref 26ain rhwng 12.00 a 5.00 yng Nghanolfan Bro Aled, Llansannan. Bydd cinio wedi ei baratoi i chi a bydd llwyth o weithgareddau amrywiol – y cyfan am £5. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Steff neu Gwenno ar www.facebook.com/cwrs.ieuentid neu ffoniwch Coleg y Bala (01678 520565).
- PENWYTHNOS BLAENORIAID** yng Ngholeg Trefeca, Tachwedd 8fed – 10fed. Noder mai nid penwythnos ar gyfer blaenoriaid newydd yn unig yw hwn a bod croeso cynnes i unrhyw flaenor i fynychu'r penwythnos. Manylion llawn ar gael gan Mair. Cysylltwch mewn da bryd, os gwelwch yn dda, er mwyn i ni fedru archebu lle ar eich cyfer.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 29^{ain} Medi 2013

Darlleniad y Dydd

Actau 16:13-15

(BCND tud.148 / BCN: tud.135)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da! Mae diwrnod newydd o ras yn agor o'n blaenau a chyfle newydd wedi ei roi i ni gan Dduw i'w ddefnyddio i'w ganmol a'i geisio hefo'n gilydd. Gobeithio y cewch eich bendithio'n fawr heddiw, yn enwedig y rhai ohonoch sydd wedi bod trwy ddyfroedd dyfnion a threialon mawr dros yr wythnosau olaf. Diolchwn i'r Arglwydd am ein cynnal ac am gynnal fflam y gobaith sydd gennym yng Nghrist ynom trwy ei Ysbryd a'i eiriau tragwyddol.

Yr hyn ddaru fy nharo wrth ddarllen y rhan yma o'r Beibl oedd fod Duw wedi "agor calon" Lydia er mwyn iddi "ddal ar y pethau yr oedd Paul yn eu dweud". Yn aml pan fyddaf yn pregethu byddaf yn sylwi fod rhai ohonoch yn gwrandu'n fwy astud ar y geiriau fel petai rhywbeth o bwys ynddynt i chi ar y pryd. Dro arall, mae'r geiriau yn cael aros ar y tu allan – fel dŵr ar bluen chwaden! Ond weithiau, mae'r gair yn cael treiddio i'r galon ac yn cael gwneud ei waith. Tybed beth a dynnodd y wraig fusnes lewyrchus yma, Lydia, i wrando mor astud ar eiriau Paul y dydd arbennig hwnnw?

Dydan ni ddim yn cael gwybod. Dydan ni ddim hyd yn oed yn cael gwybod beth yr oedd Paul yn ei ddweud, dim ond yr effaith a gafodd arni hi. Daeth i gredu. Dymunodd gael ei bedyddio. Agorodd ei chartref i'r Eglwys Fore a'i chalon i'r Iesu byw. Cafodd dröedigaeth.

Trwy wrando ar Air Duw y mae pobl yn cael tröedigaeth. Mae'r Gair, yn llaw Duw yn gallu agor calonnau ac ennyn ffydd ynom fod Iesu yn fyw. Mae bywyd yn wahanol iawn wedyn. Mae Iesu yn dod yn annwyl yn ein golwg, a'r hyn a wnaeth o trosom yn dod yn fwy ac yn fwy gwerthfawr yn ein golwg. Mwy gwerthfawr gan Lydia na'r porffor drud yr oedd yn ei werthu.

Ein gweddi heddiw ydi ar i Dduw agor ein calonnau wrth i ni wrando, ac i Air Duw wneud ei waith ynom fel ag y gwnaeth ym mywyd Lydia. Gweddiwn hefyd y cawn ni ddod i gredu o'r newydd neu ar i ni gael golwg o'r newydd ar anchwiliadwy olud Crist, yr un a roddodd ei hun drosom, ac y cawn weld cynllun Duw ar ein cyfer. Parhawn, rwy'n siŵr, i weddio hefyd dros y diniwed sy'n dioddef yn Syria ac yn Nairobi, a thros y rhai sydd yn ceisio drwg i eraill iddynt gael eu troi oddi wrth eu ffyrdd drygionus gan Ysbryd Crist fel y bydd cariad a chymod yn cael eu lle.

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • **Oedfa'r Fro ar Daith** – y tro hwn **yng Nghapel Saron** am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher • **Adnabod Addoli** yn Festri Llansannan am 8.00.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
- Gwener • **Gemau C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sadwrn • **Darlithoedd DAWN Cymru – Grŵp y Gogledd** yn cyfarfod yn Festri Capel Tegid, Y Bala. (Paned am 10.00, y darlithoedd o 10.30 – 4.00.)
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghewn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd y Parch. R. W. Jones yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mawrth*** Dydd Jangl. Dewch am banded **erbyn 11.00** a bydd Rhodri Glyn yn dod i roi sgwrs, ac yna cewch ginio fel arfer oddeutu 12.00. (*SYLWCH: Bu'n rhaid newid y diwrnod gan na fydd trydan yn y Capel dydd Iau.)
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd y Parch. R. W. Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun ym Mheniel am 10.00. (Sylwch ar y newid lleoliad.) Cynhelir Ysgol Sul i'r plant yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Iau Oedfa Ddiolchgarwch yn Saron am 7.00 gyda'r Parch. Hywel Meredydd, Llangefni yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00. Ni fydd Ysgol Sul y plant yn cyfarfod heddiw.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion yng Nghewn Berain am 2.00.
- Gwener Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghewn Berain am 12.00. Croeso mawr i bawb!
- Sul nesaf Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yng Nghewn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghewn Berain a'r oedolion am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, trwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.